Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

16 Hydref 2023

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGU AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI: 'HOMICIDE PREVENTION: AN INSPECTION OF THE POLICE CONTRIBUTION TO THE PREVENTION OF HOMICIDE'.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o arolygiadau thematig o heddluoedd. Roedd adroddiad yr Arolygiaeth yn edrych ar ba mor effeithiol y mae'r heddluoedd yn cyfrannu at y gwaith o atal lladdiadau. Canfu'r adroddiad bod y rhan fwyaf o'r heddluoedd yn gallu nodi patrymau ac achosion lladdiadau yn effeithiol. Ac roeddent yn gallu blaenoriaethu a dyrannu'r adnoddau cywir er mwyn mynd i'r afael â nhw.

Rwy'n falch bod yr Arolygiaeth wedi canfod bod gan lawer o'r heddluoedd arweinyddiaeth glir ac effeithiol i atal lladdiadau, ac rwy'n credu y gellir gweld hynny o fewn Heddlu De Cymru. Ymhellach, nodwyd argymhellion yr adroddiad gennyf a byddaf yn uno unrhyw feysydd sy'n peri pryder â'n dulliau craffu a goruchwylio yn Heddlu De Cymru.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn awyddus i sicrhau bod safonau uchaf y systemau a'r timau ymroddedig ar waith o fewn y maes hwn. Mae Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Meyrick yn crynhoi ei barn am yr adroddiad fel a ganlyn:

"Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod y canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ac mae'n gwbl ymrwymedig i atal lladdiadau. Mae gan yr heddlu Strategaeth Atal Lladdiadau newydd sy'n seiliedig ar strwythur llywodraethu Atal Trais a Lladdiadau ar lefelau tactegol a strategol er mwyn llywio gweithgarwch gweithredol; wedi'i theilwra i anghenion a gofynion penodol ein cymunedau lleol, gan barhau i fod yn ymwybodol o'r strategaeth Atal Lladdiadau genedlaethol.

Caiff ein dull ei gefnogi gan gynhyrchion dadansoddol ac mae'n canolbwyntio ar ffactorau ysgogi sy'n arwain at laddiadau, meysydd ffocws sy'n cael yr effaith fwyaf ar laddiadau, gyda swyddogion cyfrifol arweiniol er mwyn cyflawni'n effeithiol. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau gwelliannau parhaus, gan nodi a dysgu gwersi gyda phartneriaid drwy adolygiadau statudol a phrosesau adolygu anstatudol diwygiedig er mwyn nodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd o laddiadau a digwyddiadau a fu bron â digwydd a gweithredu arnynt.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol am ei sylwadau a'i ymrwymiad i sicrhau gwelliannau parhaus o ran atal lladdiadau. Byddaf yn sicrhau bod fy Mwrdd Craffu ac Atebolrwydd yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i ystyried goruchwyliaeth bellach yn y maes hwn.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English